PWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD IAU, 11 GORFFENNAF 2024

PRESENNOL Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):
J.K. Howell D. Jones H. Jones M.J.A. Lewis
B.D.J. Phillips

Cynghorwyr (Yn rhithwir):
A. Evans D.E. Williams

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir)
L. Bradshaw - Cynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
R. L. Griffiths, Licensing Officer
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 11.40 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S. Curry, W.T. Evans a B.A.L. Roberts.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU 'A' A GYNHALIWYD AR 30 EBRILL, 2024.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu "A" a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2024, gan eu bod yn gywir.

4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 18 EBRILL, 2024.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2024, gan eu bod yn gywir.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

5. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

6. MR RICHARD DENNIS THOMAS - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Richard Dennis Thomas, 9 Bryn Gwdig, Porth Tywyn am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Thomas ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Thomas yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr Richard Dennis Thomas am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

7. MR JASON ROBERT HUGHES -TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Jason Robert Hughes, 46 Heol Cwmaman, y Garnant yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat gyda'r Awdurdod. Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am yr amgylchiadau a oedd wedi codi mewn perthynas â chais Mr Hughes.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Hughes ynghylch y materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Hughes yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Mr Hughes yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

8. MR LEE JENKINS - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Atgoffwyd y Pwyllgor fod adroddiad yn ymwneud â Mr Lee Jenkins, 89 James Street, Llanelli sy'n meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat gyda'r Awdurdod, wedi cael ei dynnu'n ôl yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2024, er mwyn cael rhagor o wybodaeth am ddigwyddiad ers i'r eitem

gael ei rhoi ar agenda'r cyfarfod hwnnw. Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am yr amgylchiadau a oedd wedi codi mewn perthynas â chais Mr Jenkins.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Jenkins ynghylch y materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Jenkins yn cael rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny

PENDERFYNODD y Pwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD rhoi rhybudd terfynol i Mr Jenkins ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

9. MR DANIEL THOMAS LESLIE GRIFFITHS - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Daniel Thomas Leslie Griffiths, 19 Maes y Dderwen, Llangennech, Llanelli am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Griffiths ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Griffiths yn cael ei wrthod.

Ar hynny:

PENDERFYNODD y Pwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

PENDERFYNWYD caniatáu cais Mr Daniel Thomas Leslie Griffiths am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat.

<u>Y Rhesymau:</u>

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

10. MR KHALIL JUMAA - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Khalil Jumaa, 17 Upper William Street, Llanelli am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Jumaa ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Jumaa yn cael ei wrthod.

Ar hynny:

PENDERFYNODD y Pwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

PENDERFYNWYD caniatáu cais Mr Khalil Jumaa am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat.

Y Rhesymau:

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

11. MR DAVID RONALD MACLAGGAN-WALKER - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu at yr eitem ar yr agenda y diwrnod hwnnw yn ymwneud â Mr David Ronald Maclaggen-Walker o 49 Heol Cwmgarw, Brynaman Uchaf, Rhydaman, sy'n meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat gyda'r Awdurdod a dywedodd fod yr eitem wedi'i thynnu yn ôl am y rhesymau a nodwyd yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD nodi bod yr eitem ar yr agenda yn ymwneud â Thrwydded Yrru Ddeuol Mr David Ronald Maclaggen-Walkers ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat wedi'i thynnu yn ôl.

_____ _____

CHAIR **DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf